# Rheoli a gwella perthnasoedd mewnol ac allanol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â rheoli perthnasoedd sy'n ymwneud yn benodol â gwaith chwarae; gan gynnwys perthnasoedd gyda phlant, pobl ifanc, gofalwyr a chydweithwyr. Mae'r safon hefyd yn cynnwys perthnasoedd gyda sefydliadau, asiantaethau ac unigolion sy'n gysylltiedig â gwaith chwarae er mwyn i chi gydweithio a hyrwyddo gwaith chwarae a'i werth i'r gymuned.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. gweithio gydag eraill i sefydlu a chynnal perthnasoedd
2. arwain a chefnogi gwaith staff yn y lleoliad gwaith chwarae
3. cydweithio gyda sefydliadau, asiantaethau ac unigolion eraill

Mae'r safon hon ar gyfer unigolyn sy'n gweithio ym maes gwaith chwarae, ac sy'n rheoli amryw o safleoedd traws-sector; unigolyn sy'n gweithio mewn rôl sy'n cynnwys rheoli nifer o leoliadau gwaith chwarae sydd â'r nod pennaf o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc  chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Byddant yn gyfrifol am redeg y lleoliadau gwaith chwarae hyn, ac yn gyfrifol am staff niferus a'u lles.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth fyfyrio. **

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Gweithio gydag eraill i sefydlu a chynnal perthnasoedd**

1. sefydlu a chynnal perthnasoedd gydag **eraill** a staff
2. cyfathrebu'n effeithiol gydag **eraill** a staff
3. ymateb i gwestiynau, syniadau ac awgrymiadau
4. rhannu a hyrwyddo **gwybodaeth** yn y gymuned ehangach, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
5. rheoli materion sy'n codi, anghytundeb neu gwynion gan **eraill** yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
6. darparu cyngor a chanllawiau ar wasanaethau, asiantaethau neu weithwyr proffesiynol ategol a allai fod yn ddefnyddiol i **eraill**, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

*

*

**Arwain a chefnogi gwaith staff yn y lleoliad gwaith chwarae**

*

*

***7. monitro'r gwaith o gadw a datblygu staff***
***8. darparu*** ***gwybodaeth** er mwyn galluogi staff i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
9. rheoli rolau, cyfrifoldebau, buddiannau a phryderon staff
10. ymgynghori â staff ynghylch penderfyniadau a gweithgareddau ac ystyried eu **safbwyntiau**
11. hwyluso cytundebau a wnaed gyda staff a rhoi gwybod iddyn nhw
12. rheoli unrhyw wrthdaro o ran buddiannau ac anghytuno ymhlith staff, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
13. rheoli a chymryd rhan mewn ymarfer adfyfyriol gydag staff

**Cydweithio gyda sefydliadau, asiantaethau ac unigolion eraill**

1. meithrin cysylltiadau gyda **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** y byddech yn gallu cydweithio gyda nhw

2. ymateb i ymholiadau gan **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
3. cyfnewid **gwybodaeth** berthnasol mewn cytundeb gyda’r **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill
4. **cyfathrebu** pwrpas, gwerthoedd a dulliau eich maes gwaith gyda **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill a’r gymuned yn ehangach
5. **cyfathrebu gwybodaeth** mewn iaith ac arddull sy’n addas i’r **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** sy’n gysylltiedig
6. ymchwilio i gyfleoedd ariannu posib o ffynonellau allanol ar gyfer **prosiect** gwaith ar y cyd
7. gwerthuso canfyddiadau’r ymchwil a nodi canlyniadau
8. cytuno ar **baramedrau** ar gyfer cydweithio gyda **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill
9. cytuno ar amserlen ar gyfer cydweithio gyda **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill
10. cytuno ar gyfrifoldebau sy’n ddichonadwy ac sy’n gyson â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
11. cytuno sut y byddwch yn monitro ac yn adolygu effeithiolrwydd yr amserlen ar gyfer cydweithio gyda **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill
12. cynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill wrth gydweithio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Gweithio gydag eraill i sefydlu a chynnal perthnasoedd**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi.
2. sut i feithrin a chynnal perthynas waith gydag **eraill**
3. pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol
4. sut i hwyluso dealltwriaeth pobl o nodweddion unigryw, amrywiaeth a gwahaniaethau
5. sut i hwyluso dealltwriaeth pobl o deimladau a safbwyntiau pobl eraill
6. pwysigrwydd ymateb i gwestiynau, syniadau ac awgrymiadau
7. sut i adnabod a gwerthfawrogi nodweddion unigryw a gwahaniaethau
8. y math o **wybodaeth** sydd i'w rhannu a'i hyrwyddo
9. pwysigrwydd hyrwyddo eich maes gwaith eich hun a'i werthoedd, pwrpas a dulliau yn ehangach, i'r gymuned
10. y mathau o gyfleoedd y byddech yn gallu eu defnyddio i hyrwyddo eich gwaith a'ch sefydliad a sut i nodi cyfleoedd newydd addas
11. y mathau o faterion, anghytuno neu gwynion gan **eraill** a ffyrdd y gallech eu rheoli
12. y mathau o wasanaethau, asiantaethau neu weithwyr proffesiynol atodol fyddai'n gallu rhoi mwy o arweiniad a chymorth

**Arwain a chefnogi gwaith staff yn y lleoliad gwaith chwarae**

1. sut i hybu amgylchedd sy'n cymell ac yn cadw staff
2. sut i gefnogi datblygiad staff
3. pwysigrwydd ysgogi, cadw a datblygu staff
4. ffyrdd o ddarparu **gwybodaeth** er mwyn galluogi staff i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc
5. sut i reoli rolau, cyfrifoldebau, buddiannau a phryderon staff
6. pwysigrwydd ymgynghori gyda staff ac ystyried eu **safbwyntiau** mewn perthynas â phenderfyniadau a gweithgareddau
7. sut i hwyluso cytundebau a wnaed gyda staff a phwysigrwydd rhoi gwybodaeth iddyn nhw
8. sut i nodi gwrthdaro o ran buddiannau ac anghytuno ymhlith staff

9. eich polisïau a gweithdrefnau sefydliadol i reoli gwrthdaro o ran buddiannau ac anghytuno ymhlith staff
10. pwysigrwydd rheoli a chymryd rhan mewn ymarfer adfyfyriol gyda staff

**Cydweithio gyda sefydliadau, asiantaethau ac unigolion eraill**

1. pwysigrwydd rhwydweithio er mwyn hyrwyddo eich sefydliad
2. sut i nodi a chreu cysylltiadau gyda **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill y gallech gydweithio gyda nhw
3. polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer ymateb i ymholiadau gan **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill
4. ffyrdd o rannu **gwybodaeth** mewn cytundeb gyda’r **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill
5. y gwahanol fathau o **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** y gallech gydweithio gyda nhw i ddatblygu polisi neu strategaeth lleol ar y cyd i fynd i’r afael â phrosiect
6. sgiliau cyflwyno a **chyfathrebu** a sut i addasu iaith ac arddull cyflwyno ar gyfer anghenion gwahanol gynulleidfaoedd gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion **cyfathrebu** gwahanol o bosib
7. sut i hyrwyddo eich maes gwaith mewn ffordd sy’n ystyried rhagdybiaethau a safbwyntiau pobl eraill
8. dulliau ymchwil ar gyfer canfod cyfleoedd ariannu posib o ffynonellau allanol
9. dulliau gwerthuso ar gyfer nodi canlyniadau canfyddiadau’r gwaith ymchwil
10. **gofynion** sylfaenol ysgrifennu bidiau er mwyn gwneud ceisiadau am arian allanol
11. y buddion ar y cyd a fyddai’n deillio o gydweithio gyda’r **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** hyn
12. y **sgiliau a’r rhinweddau** sydd eu hangen ar gyfer gweithio ar y cyd yn llwyddiannus
13. pwysigrwydd cytuno’n glir ar y **paramedrau** wrth gydweithio
14. **anawsterau** posib sy’n gysylltiedig â chydweithio
15. sgiliau cyd-drafod a datrys problemau sy’n berthnasol i weithio ar y cyd
16. pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad ac adolygu cynnydd gyda’r **sefydliadau**, **asiantaethau ac unigolion** eraill sy’n gysylltiedig a sut i wneud hyn

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Eraill***(o leiaf 4 allan o 5)*
1. plant a phobl ifanc
2. rhieni a/neu ofalwyr
3. cydweithwyr
4. gweithwyr proffesiynol eraill

**Gwybodaeth**
1. am chwarae a gwaith chwarae
2. am brofiadau'r plant a'r bobl ifanc
3. am y cyfleoedd sydd ar gael yn y lleoliad gwaith chwarae
4. am y gweithdrefnau a'r gwerthoedd a gytunwyd
5. am y ffyrdd y gall rhieni a/neu ofalwyr gymryd rhan yn y lleoliad gwaith chwarae

**Safbwyntiau**
1. blaenoriaethau
2. disgwyliadau
3. agweddau at risgiau posib

**Sefydliadau, asiantaethau ac unigolion** *(o leiaf 3 allan o 5)*
1. yn y maes gwaith chwarae
2. mewn meysydd arbenigol eraill
3. statudol
4. anstatudol
5. y rhai hynny sy'n draddodiadol yn wynebu rhwystrau o ran
Mynediad

**Cyfathrebu** *(o leiaf 3 allan o 5)*
1. ieithoedd confensiynol
2. ieithoedd anghonfensiynol
3. cyfathrebu heb fod yn llafar
4. llenyddiaeth ysgrifenedig
5. deunydd hyrwyddo a marchnata

**Prosiect**
1. rhannu syniadau
2. adnoddau

3. digwyddiadau cymdeithasol
4. dathliadau, fel Diwrnod Chwarae Cenedlaethol

**Paramedrau**

1. nodau ac amcanion
2. rolau, cyfrifoldebau a dull o rannu gwaith
3. dull gweithredu
4. proses
5. ethos
6. pwyslais
7. mesurau wrth gefn

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**Eraill**
1. plant a phobl ifanc
2. rhieni a /neu ofalwyr
3. cydweithwyr
4. asiantaethau
5. gweithwyr proffesiynol eraill

**Gwybodaeth**
1. am chwarae a gwaith chwarae
2. am brofiadau’r plant a’r bobl ifanc
3. am y cyfleoedd sydd ar gael yn y lleoliad gwaith chwarae
4. am y gweithdrefnau a’r gwerthoedd a gytunwyd
5. am y ffyrdd y gall rhieni a/neu ofalwyr gymryd rhan yn y lleoliad gwaith chwarae

**Safbwyntiau**
1. blaenoriaethau
2. disgwyliadau
3. agweddau at risgiau posib

**Sefydliadau, asiantaethau ac unigolion**
1. yn y maes gwaith chwarae
2. mewn meysydd arbenigol eraill
3. statudol
4. anstatudol
5. y rhai hynny sy’n draddodiadol yn wynebu rhwystrau o ran mynediad

**Prosiect**
1. rhannu syniadau
2. adnoddau
3. digwyddiadau cymdeithasol
4. dathliadau, fel Diwrnod Chwarae Cenedlaethol

**Cyfathrebu**
1. ieithoedd confensiynol
2. ieithoedd anghonfensiynol
3. cyfathrebu heb fod yn llafar

4. llenyddiaeth ysgrifenedig
5. deunydd hyrwyddo a marchnata

**Gofynion**

1. gwaith ymchwil cyflawn a chymhellol
2. canlyniadau clir a mesuradwy
3. nodau ac amcanion clir
4. ymgysylltu â'r gynulleidfa darged
5. modelau rheoli ac ariannol cadarn
6. dangos ffydd yn y sefydliad

**Sgiliau a rhinweddau**

1. ymddiriedaeth a gonestrwydd
2. gallu i gydweithio
3. pendantrwydd
4. sgiliau gwrando
5. dibynadwyedd
6. rheoli amser
7. adnabod cryfderau, gwendidau a phersonoliaethau eraill

**Paramedrau**

1. nodau ac amcanion
2. rolau, cyfrifoldebau a dull o rannu gwaith
3. dull gweithredu
4. proses
5. ethos
6. pwyslais
7. mesurau wrth gefn

**Anawsterau**

1. personoliaethau yn gwrthdaro
2. diffyg cyfathrebu
3. ymrafael am bŵer
4. amserlenni afrealistig
5. rhannu llwyth gwaith yn annheg
6. y drafodaeth yn 'colli cyfeiriad' mewn cyfarfodydd

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

**Egwyddorion Gwaith Chwarae**

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio’r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chware a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1.
Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfol a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.

2.
Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.

3.
Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.

4.
Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw’n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.

5.
Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.

6.
Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7.
Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae ac hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.
8.
Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae.  Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwyso'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwylio'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

**Man chwarae**
Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seiber.

**Lleoliad gwaith chwarae**
Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

**Staff**
Y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant.

SKAPW99

Rheoli a gwella perthnasoedd mewnol ac allanol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2016 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | Newydd |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, Lles a Datblygiad Plentyn, Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol, Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | perthnasoedd mewnol ac allanol; gweithio ar y cyd; gwaith chwarae; lleoliad gwaith chwarae |